# TROSEDDAU SEIBER

Byddwch Gall

Byddwch Ddiogel

HEDDLU GOGLEDD CYMRU | NORTH WALES POLICE
Gogledd Cymru diogelach | A safer North Wales

### Cyfryngau Cymdeithasol

Peidiwch byth â datgelu gwybodaeth breifat ar-lein.

Byddwch yn wyliadwrus o ran pwy yr ydych yn gwahodd neu'n derbyn ceisiadau ffrindiau ganddynt.

Byddwch yn ofalus a meddyliwch cyn clicio ar ddolenni yn y cyfryngau cymdeithasol ac o fewn negeseuon preifat.

Peidiwch â rhannu lluniau preifat neu bersonol gyda phobl 'da chi erioed wedi eu cyfarfod.

Byddwch yn wyliadwrus iawn o bobl sy'n gofyn i chi siarad ar we-gamera a rhannu lluniau a gwybodaeth.

### Galwadau Ffôn Twyllodrus

Os bydd rhywun yn eich ffonio chi'n annisgwyl dylech ofyn yn union pam maen nhw wedi eich ffonio chi.

Os cewch alwad gan rywun yn dweud eu bod nhw o'ch banc chi, byddwch yn wyliadwrus a pheidiwch â datgelu unrhyw wybodaeth bersonol.

Fyddai eich banc byth yn gofyn i chi am fanylion eich cerdyn, rhif PIN na manylion llawn eich cyfrif.

Os bydd y galwr yn gofyn i chi orffen yr alwad a'u ffonio nhw'n ôl er mwyn i chi allu sicrhau eu bod nhw'n ddilys, gallai hyn fod yn sgam. Defnyddiwch ffôn gwahanol i'w galw nhw'n ôl ar y rhif cywir sydd ar ddogfennau swyddogol eich banc. Os ydych chi'n dal i amau, ewch i'ch cangen leol.

Dylech fod yn wyliadwrus ac yn effro hefyd os cewch alwad gan gwmni neu fusnes ar wahân i'ch banc.

Peidiwch â gadael i unrhyw un sy'n eich ffonio chi eich perswadio chi i fynd ar eich cyfrifiadur.

### Diogelu Plant

Mae plant a phobl ifanc yn rhyngweithio ac yn sgwrsio â llawer o wahanol bobl drwy apps a gemau. Ydych chi'n gwybod pa apps a gemau sydd ganddynt ar eu ffonau clyfar, llechi a dyfeisiadau electronig eraill? Am ragor o wybodaeth ac arweiniad ewch i:

www.getsafeonline.org a chwiliwch am 'APPS'

### Safleoedd Ocsiwn Ar-lein a Mân Hysbysebion

Peidiwch â delio â neb ond gwerthwyr a phrynwyr sydd ag enw da. Edrychwch i weld os oes ganddyn nhw adborth cadarnhaol.

Wrth werthu, gofalwch eich bod wedi cael taliadau llawn cyn i chi anfon y nwyddau.

Peidiwch â thalu dim ond drwy gyfleuster diogel a gwnewch y gwiriadau angenrheidiol. Peidiwch ag anfon arian i wlad dramor os gallwch osgoi hynny.

### Blacmel a Thwyll Gwe-gamera

Mae pobl o bob oed yn dioddef y sgam hwn. Mae rhywun yn dod yn gyfaill iddynt ar-lein ac yn eu hannog i fynd ar we-gamera neu app sgwrsio dros fideo megis 'Skype' 'OoVoo' ayyb.

Peidiwch â gadael i neb eich perswadio i dynnu eich dillad neu berfformio gweithredoedd rhywiol o flaen eich gwe-gamera neu dros fideo drwy App.

Os ydych yn dioddef trosedd o'r fath, peidiwch â chynhyrfu, gall yr heddlu helpu. Peidiwch â thalu unrhyw ffioedd, peidiwch â chysylltu â'r twyllwr eto a chysylltwch â'r heddlu ar unwaith. Peidiwch â theimlo embaras, bydd yr heddlu'n delio â'r peth mewn modd parchus a phroffesiynol.

I gael y cyngor a'r arweiniad diweddaraf, dilynwch ni ar-lein

NWP Cyber Crime Team

@NWPCybercrime

TROSEDDAU SEIBER

Byddwch Gall

Byddwch Ddiogel

HEDDLU GOGLEDD CYMRU | NORTH WALES POLICE
Gogledd Cymru diogelach | A safer North Wales

**Cyngor defnyddiol – Diogelu ac Atal**

- Gwiriwch y gosodiadau preifatrwydd ar eich holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac Apps. Bydd tiwtorial i'ch helpu ar gael ar y rhan fwyaf o safleoedd.
- PEIDIWCH â derbyn ceisiadau ffrind gan bobl dydych chi ddim yn eu hadnabod neu erioed wedi eu cyfarfod.
- Byddwch yn wyliadwrus o bobl ddieithr yn cysylltu â chi ar-lein, drwy e-bost, cyfryngau cymdeithasol neu drwy App neu Gêm.
- PEIDIWCH â chael eich twyllo i feddwl eich bod wedi ennill y lotri neu wedi ennill etifeddiaeth. Mae llythyrau ac e-byst o dramor yn sgamiau hysbys.
- PEIDIWCH â chael eich twyllo i feddwl y gallwch fynd yn gyfoethog yn sydyn ar-lein.
- PEIDIWCH â chlicio ar ddolenni/hysbysebion am wobrau, anrhegion neu gyfleoedd gwneud arian.
- Wrth siopa ar-lein, gwnewch ymchwil i'r gwerthwr a byddwch yn wyliadwrus o brisiau amheus o isel. Os ydy o'n edrych rhy dda i fod yn wir, mae'n debyg ei fod o.
- Gosodwch feddalwedd gwrth-firws a chadwch o'n gyfredol. Mae digon o ddewis a gellir gwneud ymchwil ac adolygu systemau ar-lein cyn eu gosod.
- Gofalwch eich bod yn gwybod pa gemau ac apps sydd wedi'u gosod ar ddyfais eich plentyn. Edrychwch i weld pwy ydy eu ffrindiau nhw. Siaradwch efo nhw er mwyn egluro'r peryglon.
- Dewiswch gyfrineiriau cryf, newidiwch nhw'n rheolaidd a pheidiwch â dweud wrth neb beth ydyn nhw. Defnyddiwch gyfuniad o lythyrau, rhifau a nodau.
- Os nad ydych yn sicr ynghylch yr uchod, ceisiwch gyngor a chefnogaeth ffrind, aelod o'r teulu neu wefan dibynadwy e.e. getsafeonline.org

Mae'r Heddlu yma i helpu. Dilynwch y camau uchod er mwyn eich gwneud chi, eich teulu a'ch ffrindiau yn ddiogel ar-lein. Os ydych yn ddigon anffodus i ddioddef trosedd, riportiwch hynny i'r Heddlu drwy Action Fraud neu ar 101.

Am ragor o wybodaeth ewch i [www.north-wales.police.uk](http://www.north-wales.police.uk) a chwiliwch am "Cybercrime".

Dilynwch ni ar Facebook a Twitter i gael yr holl gyngor ac arweiniad diweddaraf.

**NWP Cyber Crime Team** **@NWPCybercrime**